Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Bro Carmel**
**Ffordd Carmel**
**Carmel**
**Treffynnon**
**Sir y Fflint**
**CH8 8NU**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Carmel

Mae Ysgol Bro Carmel ym mhentref Carmel yn Sir y Fflint. Mae 189 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 20 disgybl sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser. Mae pedwar dosbarth un oedran, a thri dosbarth oedran cymysg.

Mae tua 6% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi Cymraeg neu gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 15% o'i disgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2007 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf gan Estyn ym mis Chwefror 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Bro Carmel yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol sydd â ffocws clir ar hyrwyddo safonau rhagorol o ran lles disgyblion. Nodwedd gref iawn yn y ddarpariaeth yw'r ffordd y caiff llais disgyblion ei gynnwys yn llawn wrth wneud penderfyniadau am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. O ganlyniad, mae agweddau bron pob un o'r disgyblion at ddysgu yn rhagorol a dangosant falchder yn eu hysgol. Maent yn herio eu hunain i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus a gwna'r rhan fwyaf ohonynt gynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth eithriadol o gryf. Mae ganddi weledigaeth angerddol a chlir ar gyfer datblygu'r ysgol i fod yn gymuned gynhwysol ac ysgogol ar gyfer disgyblion. Mae staff yn ymroddgar a brwdfrydig. Maent yn gweithio'n agos ac yn hynod effeithiol fel tîm.

Un o nodweddion rhagorol yr ysgol yw'r trefniant a wna ar gyfer datblygiad staff. Mae hyn yn arwain at gymuned ddysgu gref lle mae staff yn wynebu datblygiadau a newidiadau presennol mewn addysg gyda brwdfrydedd a hyder. Mae diwylliant o wella yn treiddio trwy'r ysgol, ac mae adolygu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ganolog i'w hethos.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ymestyn eu hysgrifennu ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod pob un o’r staff yn defnyddio strategaethau effeithiol fel bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o sut i wella eu gwaith

A3 Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau corfforol disgyblion y cyfnod sylfaen yn yr ardaloedd awyr agored

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith o ran y trefniadau a wna arweinwyr ar gyfer datblygiad staff, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau sy'n gweddu i'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, yn galw dysgu blaenorol i gof ac yn cymhwyso eu medrau'n effeithiol i brofiadau a sefyllfaoedd newydd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando cryf sy'n eu cynorthwyo'n dda yn eu holl feysydd dysgu. Mae bron pob un o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwrando ac yn ymateb yn effeithiol i gyfarwyddiadau a thrafodaethau gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa. Defnyddiant ystod eang o batrymau brawddeg yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Er enghraifft, pan fydd disgyblion Blwyddyn 1 yn trafod eu gwaith ar bwyso, maent yn disgrifio'r modd y mae rhai gwrthrychau naturiol yn drymach na rhai eraill. Mae bron pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n effeithiol ar y sylfaen gadarn hon. Defnyddiant eu medrau siarad a gwrando'n hyderus i gymdeithasu amser chwarae a chynorthwyo eu dysgu yn ystod gwersi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da dros gyfnod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion derbyn yn datblygu sylfaen gadarn o lythrennau a seiniau yn gyflym, ac yn defnyddio hyn i ddarllen geiriau syml â hyder cynyddol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn llunio geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus ac yn darllen â mynegiant priodol. Maent yn trafod cynnwys llyfrau â brwdfrydedd ac yn cyfeirio at nodweddion testun yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau darllen yn dda. Maent yn amrywio tôn ac uchder eu llais yn effeithiol wrth ddarllen ar goedd i adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn stori. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn cyfeirio at gynnwys testunau'n fanwl i gefnogi eu barn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n gynnar yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn defnyddio ystod effeithiol o frawddegau syml i ddisgrifio nodweddion y gwanwyn. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu brawddegau diddorol yn annibynnol. Er enghraifft, wrth ddisgrifio'r 'Rock Man', defnyddiant ansoddeiriau yn greadigol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn parhau i ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus, ac erbyn diwedd Blwyddyn 6, maent yn meddu ar fedrau cadarn mewn sillafu, atalnodi a gramadeg. Mae llawer ohonynt yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod eang o ffurfiau ysgrifennu. Er enghraifft, wrth ysgrifennu ffurf naratif o safbwynt unigolyn yn myfyrio ar ei feddyliau a'i deimladau trwy ôl-fflachiau, mae disgyblion yn defnyddio geirfa ddychmygus a chreadigol sy'n galluogi'r darllenydd i ddeall yr hyn y mae'r cymeriad yn ei feddwl a'i deimlo. Defnyddiant drosiadau a chyffelybiaethau perthnasol yn effeithiol i wella eu hysgrifennu, er enghraifft wrth alw eu teimladau i gof yn ystod taith gerdded i'r goedwig. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, ni chaiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i

ddefnyddio eu gwybodaeth am fathau testun ffeithiol yn eu hysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Maent yn galw ffeithiau rhif syml a gwybodaeth am werth lle i gof yn dda. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu dealltwriaeth dda o rif; er enghraifft, maent yn dechrau gwneud y cysylltiad rhwng lluosi a rhannu tra'n plannu hadau ar gyfer tyfu planhigion yng ngardd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cysylltiadau pwrpasol â'u dysgu blaenorol. Defnyddiant eu medrau rhifedd yn llwyddiannus. Er enghraifft, wrth gyfrifo uchder y llanw yn ystod gwahanol adegau o'r diwrnod, mae disgyblion yn cymhwyso eu dealltwriaeth o drin data, ac yn plotio eu canlyniadau ar graff llinell.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando gwerthfawr yn Gymraeg. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cydnabod pwysigrwydd dysgu Cymraeg er mwyn bod yn aelodau o gymdeithas ddwyieithog. Maent yn ymateb yn dda i ddefnyddio gorchmynion Cymraeg yn rheolaidd a sgyrsiau sy'n cael eu cychwyn gan staff. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn gofyn ac yn ateb cwestiynau syml, fel 'sut wyt ti?' ac yn ymuno ag arferion dyddiol â brwdfrydedd. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen addas yn Gymraeg, gan ddarllen testunau syml gyda lefel o ddealltwriaeth sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu â chywirdeb addas. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn ysgrifennu disgrifiadau gwybodus am eu ffrindiau.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) hyderus. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn mewnbynnu cyfarwyddiadau yn effeithiol i symud tegan rhaglenadwy ac yn defnyddio rhaglenni trin data yn llwyddiannus i greu graffiau syml am wrthrychau naturiol yn yr ardal leol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn creu cyflwyniadau aml-gyfrwng i gyflwyno eu gwaith yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio'r rhyngrwyd a meddalwedd gyflwyno i ymchwilio a chyflwyno eu gwaith ar y pedwar diben i'r corff llywodraethol. Defnyddiant daenlenni i greu graffiau amrywiol, ac maent yn crynhoi gwybodaeth yn dda.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae safon lles ac agwedd bron pob un o'r disgyblion at ddysgu yn rhagorol. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob un o'r disgyblion mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn hynod gryf. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn mynychu'n rheolaidd ac yn hyderus fod staff yn ymateb i unrhyw bryderon sydd ganddynt yn brydlon. Mae bron pob un o'r disgyblion yn eithriadol o gwrtais tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siaradwyr hyderus a huawdl sy'n gwrando ar ei gilydd yn barchus ac yn cymryd eu tro mewn sgyrsiau. Mae'r rhyngweithio cadarnhaol a'r lefelau cryf o gydweithredu ymhlith disgyblion o bob oedran, mewn gwaith a chwarae, yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd gan ddefnyddio 'cod pump uchel' yr ysgol. Maent yn eithriadol o ofalgar o'i gilydd ac yn dangos parch at ddisgyblion a phobl eraill mewn gwersi, yn y neuadd ginio ac ar iard yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o bwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd a'r angen i fwyta ac yfed yn iach. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr ystod helaeth o weithgareddau allgyrsiol sy'n

hyrwyddo lles corfforol, gan gynnwys osgoi'r bêl, pêl-droed, pêl-rwyd a ioga. Mae'r llysgenhadon chwaraeon yn annog disgyblion i chwarae gemau amser cinio ac maent yn siarad yn falch am ennill gwobr platinwm am eu hymroddiad i chwaraeon. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymryd rhan mewn gwyliau a thwrnameintiau lleol, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol iawn at ddatblygu eu ffitrwydd, eu hunan-barch a'u medrau cymdeithasol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos brwdfrydedd dros ymgymryd â chyfrifoldebau, fel bod yn rhan o grwpiau amrywiol llais y disgybl yn yr ysgol. Mae aelodau'n ymgymryd â'u rolau yn ddifrifol iawn ac yn creu cynlluniau sy'n amlinellu eu camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn yn glir. Maent yn deall eu bod yn rhoi llais clir i'w cyd-ddisgyblion ac yn eu galluogi i greu effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a lles eu cyfoedion. Maent yn ymfalchïo yn yr hyn y maent yn ei gyflawni i wella'r ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn ymgyrchu i gadw cŵn oddi ar gae'r ysgol ar ôl oriau ysgol. Mae'r pwyllgor TGCh yn mynd ati i atgoffa eu cyfoedion am reolau'r rhyngrwyd, ac o ganlyniad, mae pob un o'r disgyblion yn deall bod angen aros yn ddiogel ac ymddwyn yn gyfrifol pan fyddant yn mynd ar-lein.

Bu'r Criw Cymraeg yn allweddol o ran datblygu Cymraeg sgyrsiol a dwyieithrwydd ar draws yr ysgol, sydd wedi gwella'r ethos Cymreig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth ragorol o gynaliadwyedd trwy waith y pwyllgor 'Un Byd'. Maent wedi gweithio'n arloesol i addysgu pobl eraill ynglŷn â lleihau eu hôl-troed carbon. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymgymryd â chyfrifoldebau yn aeddfed ac yn deall pwysigrwydd rhoi llais clir i'w cyd-ddisgyblion i'w galluogi i greu effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a lles eu cyfoedion.

Nodwedd gref iawn yw agweddau disgyblion at ddysgu a'r ffordd y maent yn datblygu medrau dysgu'n annibynnol. O oedran cynnar, mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o ganolbwyntio a gwydnwch yn eu gwaith, yn enwedig pan fyddant yn wynebu her. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dylanwadu ar sut a beth mae arnynt eisiau ei ddysgu yn rheolaidd. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn hynod frwdfrydig ynglŷn â'u gwaith ac yn dangos lefelau uchel o benderfyniad i lwyddo. Trwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau effeithiol, mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar lawer o'r medrau hanfodol ar gyfer dysgu'n effeithiol ac yn dangos parodrwydd i fynd i'r afael â heriau newydd. Er enghraifft, pan fyddant yn ansicr ynglŷn â sut i gwblhau tasg, bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gofyn i'w partner dysgu neu'n defnyddio'r waliau dysgu yn annibynnol i ddod o hyd i ateb. Mae hyn yn annog disgyblion i weithio'n ddiwyd a goresgyn eu rhwystrau rhag dysgu yn llwyddiannus. Mae bron pob un ohonynt yn barod i ddechrau gweithgareddau yn frwdfrydig, yn canolbwyntio'n dda, yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Maent yn mwynhau her ac yn gweithio'n dda yn annibynnol, gan ddangos lefel uchel o ddyfalbarhad.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae athrawon yn adnabod disgyblion yn dda ac yn datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol sy'n meithrin amgylchedd dysgu llwyddiannus. Maent yn creu awyrgylch pwrpasol a chefnogol sydd wedi'u seilio ar gwrteisi a pharch. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn gweithio'n ddiwyd.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes ac yn ei defnyddio'n fedrus i gynllunio profiadau dysgu cyfoethog a gwersi diddorol. Mae'r ysgol wedi dechrau cynllunio'n bwrpasol yn unol â gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae athrawon yn sicrhau bod gan ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 rôl flaenllaw mewn penderfynu ar y meini prawf llwyddiant ar gyfer eu tasgau. Mae hyn yn helpu disgyblion i wneud dewisiadau penodol ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu, a sut. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn annog disgyblion i weithio gyda'i gilydd i gynorthwyo ei gilydd yn eu dysgu. Er enghraifft, wrth gynllunio a thrafod manteision cynnal ffair hydref, fe wnaeth athrawon annog disgyblion i weithio mewn parau a thimau i ddarganfod pa stondinau wnaeth yr elw mwyaf.

Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer grwpiau o ddisgyblion ac unigolion ar draws yr ystod gallu. Enghraifft nodedig o hyn yw'r sesiynau medrau sylfaenol dyddiol a drefnir gan staff sy'n eu helpu â'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r gweithgareddau dysgu hyn yn cynnig lefel dda o her ar gyfer disgyblion.

Mae cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Mae pob un o'r oedolion yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r disgyblion yn rheolaidd yn ystod y diwrnod ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar fedrau cryf yn y Gymraeg ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith. Mae pob un o'r athrawon yn cynnwys thema ddiwylliannol Gymreig yn eu cynllunio, er enghraifft arlunwyr a cherddorion o Gymru, a dathlu diwrnod cerddoriaeth Cymru.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn cynllunio ystod werthfawr o brofiadau dysgu ysgogol sy'n datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon wedi ymgorffori gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn gadarn yn eu cynlluniau gwaith. Trwy ymgorffori syniadau disgyblion yn y broses gynllunio, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd buddiol iddynt wneud dewisiadau aeddfed ynglŷn â'u dysgu. Er enghraifft, wrth drefnu ymweld â'r Wyddfa, penderfynodd disgyblion ysgrifennu asesiadau risg, buont yn darganfod costau ac yn trefnu amserlen ar gyfer taith y diwrnod.

Mae athrawon yn rhoi adborth priodol ar lafar ac yn ysgrifenedig i ddisgyblion fel bod llawer ohonynt yn gwybod pa mor dda y maent yn cyflawni. Maent yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad disgyblion eraill. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir a chyson o sut i wella eu gwaith.

Mae athrawon yn cymhwyso egwyddorion y cyfnod sylfaen yn dda. Maent yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh trwy gyfres o heriau pwrpasol. Er enghraifft, mae disgyblion yn datrys problem y llysiau coll er mwyn helpu staff y gegin i baratoi'r cinio rhost. At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu difyr yn llwyddiannus yn yr ystafell ddosbarth a'r ardal awyr agored. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer datblygu medrau corfforol disgyblion yn yr ardal awyr agored.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar iawn sy'n meithrin medrau personol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae staff yn adnabod

disgyblion yn eithriadol o dda. Maent yn darparu amgylchedd cynnes sy'n canolbwyntio ar y plentyn cyfan ac yn magu hyder a hunan-barch y disgyblion. Mae arweinwyr a staff yn dadansoddi gwybodaeth am gynnydd disgyblion ac yn defnyddio gwybodaeth asesu yn dda iawn i gynllunio cymorth effeithiol mewn dosbarthiadau a thrwy raglenni ymyrraeth a addaswyd yn unol ag anghenion y disgyblion. Mae staff hyfforddedig yn darparu cymorth gwerth chweil i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r trefniadau a wna'r ysgol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion emosiynol yn rhagorol. Er enghraifft, mae'r sesiynau chwarae ar gyfer disgyblion sy'n profi anawsterau ymlyniad a thrawma yn cael effaith gadarnhaol ar ennyn diddordeb disgyblion ym mywyd yr ysgol. Mae'r staff yn rhoi cymorth yn frwdfrydig i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod dda iawn o gyfleoedd i rieni ymgysylltu â'r ysgol a darganfod am y gwaith y mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol, a sut i gynorthwyo dysgu eu plentyn gartref. Er enghraifft, yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd â rhieni, maent yn cynnig cyfarfodydd un i un helaeth o ansawdd da iawn i drafod gwybodaeth benodol am gynnydd eu plant. Mae hyn yn helpu rhieni i gynorthwyo dysgu eu plant gartref. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda rhieni i roi ystod o strategaethau ar waith i hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb da. Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol ar gyfer adborth gwerthusol gan rieni trwy holiaduron ac arolygon ar-lein.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent yn hyrwyddo pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd yn dda iawn. Er enghraifft, maent yn trefnu bod disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod helaeth o wyliau chwaraeon ac yn darparu ystod eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol o ansawdd uchel, sy'n helpu disgyblion i fod yn heini ac egnïol. Mae'r cyfleoedd niferus a roddir i ddisgyblion ymweld â chanolfannau yn yr ardal leol, yn ogystal â pherfformio o flaen cynulleidfaoedd, yn nodwedd gref. Mae hyn yn datblygu medrau mynegiannol a chymdeithasol disgyblion yn eithriadol o dda.

Mae llais y disgybl yn hynod ddatblygedig ar draws yr ysgol. Rhoddir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau ac arweinyddiaeth, er enghraifft y cyngor ysgol, y Criw Cymraeg, arweinwyr digidol a 'Gweithredwyr Newid' ('Agents of Change'). Mae'r rhain yn datblygu medrau arwain disgyblion yn effeithiol ac yn dylanwadu ar eu penderfyniadau am fywyd yr ysgol a materion amgylcheddol ehangach. Er enghraifft, mae'r pwyllgor 'Un Byd' ('One World') yn addysgu disgyblion eraill ynglŷn â phwysigrwydd cynaliadwyedd a'r modd y mae eu hôl-troed carbon yn effeithio ar newid hinsawdd.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n effeithiol â sefydliadau cymunedol i wella'r profiadau dysgu ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio gyda bardd ac awdur lleol i wella safonau ysgrifennu trwy ddefnyddio animeiddio. Mae arweinwyr ac athrawon yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion deithio ac ymweld â lleoedd, fel Castell Bodelwyddan a thaith i draeth Talacre i gynorthwyo eu gwaith testun.

Mae'r ysgol yn hynod gynhwysol. Rhoddir pwyslais cryf ar barchu'r plentyn fel unigolyn cyflawn a diwallu anghenion yr holl ddysgwyr. Caiff disgyblion brofiadau gwerth chweil i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ystod gwasanaethau a gweithgareddau ystafell ddosbarth, sy'n eu hannog i barchu credoau a chrefyddau eraill. Cânt ystod dda o gyfleoedd i

berfformio yn yr ysgol ac yn eu cymuned leol. Rhoddir pwyslais clir ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o wneud y dewisiadau cywir trwy 'god pump uchel' ('high five code') yr ysgol. Caiff hyn ddylanwad hynod gadarnhaol ar agweddau ac ymddygiad disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig a gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn o staff a disgyblion. Mae hi wedi sefydlu tîm agos a llwyddiannus o staff addysgu a staff cymorth. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn hynod effeithiol, yn enwedig o ran sicrhau bod mentrau newydd yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys datblygu gallu disgyblion i weithio fel partneriaid dysgu a defnyddio arddangosfeydd ystafell ddosbarth fel adnodd dysgu. Mae gan bob un o'r staff gyfrifoldebau arwain y maent yn ymgymryd â nhw yn ddiwyd. Mae'r gwaith a wneir fel rhan o addysgu a dysgu yn hynod werthfawr o ran cynorthwyo'r ysgol i fynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r corff llywodraethol yn darparu cymorth eithriadol o gryf ar gyfer yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn defnyddio eu gwybodaeth fanwl iawn am safonau, darpariaeth a chyllid i gynorthwyo'r pennaeth i gyflawni ei gweledigaeth ar gyfer yr ysgol.

Mae'r broses ar gyfer cynllunio gwelliant yn hynod effeithiol, yn enwedig o ran adeiladu ar y safonau da y mae dysgwyr yn eu cyflawni, a chynnal y ffocws manwl iawn ar les disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion ar draws yr ysgol yn cyfrannu eu syniadau ar gyfer gwella ac yn cynnwys llawer o'r grwpiau disgyblion trefnus wrth fynd i'r afael yn weithredol â'r materion a godwyd. Ar hyn o bryd, er enghraifft, caiff disgyblion eu cynnwys mewn datblygu ardaloedd yr iardiau chwarae ac ymestyn ystod eang y cyfleoedd chwaraeon sydd ar gael i ddisgyblion.

Mae'r trefniadau a wna'r ysgol ar gyfer datblygiad proffesiynol staff yn eithriadol o dda. Caiff staff gyfleoedd gwerthfawr i rannu eu harbenigedd, eu medrau a'u hyfforddiant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cael cymorth ac anogaeth i symud ymlaen â'u gyrfaoedd. Mae hyn wedi cynnwys athrawon yn cymryd cyfleoedd secondiad i weithio mewn ysgolion eraill a staff cymorth yn symud i'r proffesiwn addysgu. Mae staff wedi elwa ar ddull rhagweithiol iawn yr ysgol o weithio gydag ysgolion eraill yn y clwstwr lleol a thu hwnt. Er enghraifft, yn ddiweddar, roedd aelod o staff yn rhan o grŵp bach a ymwelodd ag Efrog Newydd, a rhoddodd gyflwyniad ar y newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r cwricwlwm yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro cyllid yr ysgol yn drylwyr ac yn adolygu gwariant yn barhaus. Mae arweinwyr yr ysgol yn gwneud defnydd hynod effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i gefnogi cynnydd a lles disgyblion. Caiff y gwaith hwn effaith gadarn ar safonau lles, ansawdd y ddarpariaeth ac agweddau disgyblion tuag at eu gwaith. Maent yn canolbwyntio'n arbennig o dda ar gynnal lefel uchel o staff cymorth. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar les disgyblion a'r safonau a gyflawnir ganddynt. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod staff addysgu a staff cymorth â chyfrifoldebau arwain yn cael amser arwain dynodedig er mwyn cyflawni eu rolau'n

llwyddiannus.  Mae staff yn defnyddio adeilad yr ysgol yn effeithiol gydag arddangosfeydd o ansawdd da sy'n creu amgylchedd dysgu ysgogol.  Mae tir yr ysgol a gynhelir yn dda yn helaeth.  Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau awyr agored i gynorthwyo disgyblion y cyfnod sylfaen yn llawn i ddatblygu eu medrau corfforol yn yr ardal awyr agored.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2019